OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 947 (Cy.128)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Cartrefi Gofal (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*27 Mawrth 2003*
Yn dod i rym - -	*31 Mawrth 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 22(1) a (2)(b) a 118(5) i (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol: —

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cartrefi Gofal (Diwygio) (Cymru) 2003, a deuant i rym ar 31 Mawrth 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygio Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002

2. Yn Rheoliad 19(6) o Reoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002(**2**)(ffitrwydd gweithwyr) yn lle'r geiriau "1 Ebrill 2003" rhodder y geiriau "31 Hydref 2004".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (**3**).

Jane Hutt
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

27 Mawrth 2003

(**1**) 2000 p.14. Mae'r pwerau yn arferadwy gan y Gweinidog priodol a ddiffinnir yn adran 121(1), mewn perthynas â Chymru, fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gweler adran 121(1) i gael y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".
(**2**) O.S. 2002/324 (Cy.37), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/2622 (Cy.254).
(**3**) 1998 p.38.